

THE KENNEL CLUB

# LLAIS I GŴN

## MANIFFESTO CYMRU

# GAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae swyddfeydd y Kennel Club yng Nghymru a ledled y DU yn orlawn o bobl sy'n caru cŵn ac yn gweithio'n ddiflino i wella bywydau cŵn drwy'r gwasanaethau a'r cynlluniau rydym yn eu cynnig i holl berchenogion cŵn a'r rhai sy'n gweithio gyda chŵn. Rydym yn cynnig ffynhonnell unigryw o addysg, profiad a chyngor ar 'bopeth yn ymwneud â chŵn': bridio, iechyd, prynu, hyfforddi, a pherchnogaeth gyfrifol.

Rydym yn cofrestru tua chwarter miliwn o gŵn pedigri bob blwyddyn, yn ogystal â thua 3,500 o gŵn croesfrid ar ein cofrestrau anifeiliaid anwes a gweithgarwch. Ni yw'r unig sefydliad lles i gydnabod y cyfraniad cadarnhaol y mae bridwyr cŵn cyfrifol yn ei wneud i gymdeithas a ni sy'n rhedeg yr unig gynllun bridio wedi'i achredu gan UKAS sy'n hunanreoleiddio tua 4,000 o fridwyr. Rydym yn rhedeg Petlog, ein cronfa ddata microsglodynnu, sy'n cadw manylion 5 miliwn o gŵn, yn rhoi cymorth i 1,700 o glybiau hyfforddi cŵn drwy ein Cynllun Cŵn Dinasyddion Da ac yn achredu hyfforddwyr cŵn drwy ein rhaglen Hyfforddwyr Achrededig Kennel Club.

Rydym yn galw ar Lywodraeth newydd Cymru i gynnal lles cŵn yn y ffyrdd a nodir yn ein maniffesto. Rydym eisiau rhoi llais i gŵn i drafod y materion canlynol, ac rydym yn gobeithio y caiff y llais hwnnw ei glywed.
Graham Hill

**Graham Hill**
**Cadeirydd Kennel Club Cymru**

# TROSOLWG

10 cais allweddol i wella iechyd a lles cŵn

1. Cynyddu'r pwerau i awdurdodau lleol orfodi troseddau bridio cŵn drwy ganiatáu iddynt roi Hysbysiadau Cosb Benodedig a gwella hyfforddiant er mwyn gwella cysondeb camau gorfodi.

2. Caniatáu'r Cynllun Bridwyr Gwarantedig sydd wedi'i achredu gan UKAS i hunanreoleiddio ei aelodau, a thrwy hynny osgoi dyblygu arolygiadau awdurdodau lleol.

3. Cyflwyno model trwyddedu sy'n seiliedig ar risg er mwyn galluogi awdurdodau lleol i arolygu bridwyr risg uchel/llai cyfrifol yn amlach a rhoi trwyddedau hirach i fridwyr risg isel/cyfrifol.

4. Cymell bridwyr domestig, niferoedd isel i fridio cŵn bach er mwyn sicrhau cyflenwad da o gŵn anwes hapus, iach a chytbwys a sicrhau bod y system drwyddedu yn fwy cymesur ar gyfer bridwyr niferoedd isel.

5. Osgoi gofynion cofrestru cymhleth, nad oes modd eu gorfodi ar gyfer bridwyr sy'n rhoi pwyslais ar les a niferoedd isel.

6. Adolygu Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015.

7. Addysgu perchnogion anifeiliaid anwes ar bwysigrwydd cadw manylion microsglodyn eu cŵn yn gyfredol.

8. Cael gwared ar yr arfer o ddyblygu cofrestriadau er mwyn helpu i ailuno, a chodi safonau'r cronfeydd data gweithredwyr a darparwyr hyfforddiant mewnblannu i sicrhau gwell gwasanaeth i berchnogion anifeiliaid anwes.

9. Comisiynu arbenigwyr newid ymddygiad i ddatblygu ymgyrch i leihau nifer yr achosion o beri gofid i dda byw gan gŵn ar eu pen eu hunain.

10. Asesu a hyrwyddo arfer gorau a mesurau anneddfwriaethol a fydd yn grymuso cerddwyr sy'n mynd â chŵn am dro i osgoi da byw a gwrthdaro wrth fynd am dro.

# BRIDIO'N GYFRIFOL

## Annog bridio cŵn yn gyfrifol

Mae'n hollbwysig sicrhau bod cyflenwad da o gŵn bach yn cael eu bridio gan fridwyr cariadus, niferoedd isel. Mae cŵn yn cyrraedd canolfannau achub yn llawer rhy aml oherwydd arferion bridio gwael. Y Kennel Club yw'r unig sefydliad lles sydd wir yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr bridwyr da i'r gymdeithas ac mae'n cofrestru tua 25,000 o gŵn yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae Llywodraeth bresennol Cymru wedi ymrwymo i adolygu Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 a chyflwyno gwaharddiad ar werthu cŵn bach i drydydd parti. Rydym yn croesawu'n fawr y ddau fesur hyn i fynd i'r afael â ffermio cŵn bach a bridio a smyglo cŵn bach yn anghyfreithlon, sy'n hynod gyffredin yng Nghymru, gan niweidio enw da llawer o fridwyr da. Wrth adolygu'r Rheoliadau, mae'n hollbwysig i Lywodraeth newydd Cymru daro'r cydbwysedd cywir, gan sicrhau bod y rhai sy'n bridio cŵn yn rheolaidd er budd masnachol yn bodloni safonau iechyd a lles priodol, gan annog bridwyr niferoedd isel, sy'n rhoi pwyslais ar les, i barhau i fridio.

## Darparu adnoddau ar gyfer awdurdodau lleol

Ar hyn o bryd, mae Rheoliadau bridio cŵn yng Nghymru yn syml i fridwyr ac awdurdodau trwyddedu eu deall, a'r rhagdybiaeth sylfaenol yw bod angen trwydded os yw bridiwr cŵn yn bridio tri thorraid y flwyddyn neu fwy, neu'n cadw tair gast fridio neu fwy ar ei safle. Pan gyflwynwyd y Rheoliadau yn 2014, fe wnaethant godi gofynion trwyddedu i wella lles y cŵn bach sy'n cael eu bridio, a gostwng y trothwy lle'r oedd angen trwydded ar fridwyr o bum torraid y flwyddyn i dri. Ar sail ein data cofrestru, dylai hyn fod wedi arwain at arolygu tair gwaith cymaint o fridwyr i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau lles uwch nag o'r blaen.

Fodd bynnag, nid yw'r safonau uwch hyn yn cyfateb i fesurau gorfodi gwell. Yn seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru, ar hyn o bryd, dim ond 219 o fridwyr cŵn mae awdurdodau lleol Cymru yn eu trwyddedu bob blwyddyn – llai na chwarter yr hyn y dylent fod yn eu trwyddedu ar sail ein data cofrestru ein hunain, sy'n dangos bod angen trwydded ar 282 o fridwyr yng Nghymru, a bod y Kennel Club yn cofrestru traean o'r cŵn bach sy'n cael eu bridio. **Nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau ac mae eu pwerau gorfodi yn gyfyngedig, a dyna pam mae ffermio cŵn bach yng Nghymru yn parhau'n gyffredin iawn.**

Ar hyn o bryd, nid oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i gynnal arolygiadau rhagweithiol neu ddirybudd ar y raddfa ofynnol. Mae'r sefyllfa hon yn waeth oherwydd bod y rhan fwyaf o arolygiadau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gan swyddogion yr awdurdod lleol sydd â gwybodaeth gyfyngedig neu heb fawr ddim gwybodaeth am les anifeiliaid. **Felly, rydym yn galw ar Lywodraeth newydd Cymru i wella'r hyfforddiant sydd ar gael i arolygwyr awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y gofynion trwyddedu'n cael eu gorfodi'n fwy cyson, a chynyddu'r pwerau sydd ar gael i awdurdodau lleol fel y gallant roi Hysbysiadau Cosb Benodedig, hy dirwyon "yn y fan a'r lle", ar gyfer troseddau bridio cŵn.**



# BRIDIO'N GYFRIFOL

## Hunanreoleiddio


**I helpu gorfodi ymhellach, rydym yn cynnig bod rhywfaint o brosesau hunanreoleiddio yn cael eu cyflwyno i'r system drwy Gynllun Bridwyr Cŵn Gwarantedig y Kennel Club.** Cafodd y cynllun achrediad annibynnol gan UKAS dros 10 mlynedd yn ôl, ac mae'n hunanreoleiddio tua 4,000 o fridwyr ar draws y DU, gan gynnwys 165 yng Nghymru. Mae ein haseswyr yn arolygu 1,200 o safleoedd bob blwyddyn ar gyfartaledd ledled y DU, tra mae dros hanner yr awdurdodau lleol yn cynnal pum arolygiad neu lai. Mae'r cynllun yn cynnwys defnyddio profion iechyd penodol i frîd a mesurau iechyd ataliol, ac mae'n sicrhau bod cŵn bach yn cael eu harchwilio gan filfeddyg cyn eu gwerthu.

Mae tystiolaeth gan y cwmni yswiriant, Agria, wedi profi bod gofynion y Cynllun Bridwyr Gwarantedig yn cyflawni'r nod o sicrhau bod cŵn bach iachach yn cael eu bridio. Ar gyfer cŵn y gall fod ganddynt broblemau iechyd y mae Cynllun Bridwyr Gwarantedig y Kennel Club yn ymdrechu'n benodol iddynt beidio â chael eu bridio, mae'r rheini a gaiff eu bridio gan Fridwyr Gwarantedig 34 y cant yn llai tebygol o fod angen triniaeth filfeddygol, gan arwain at filiau milfeddygol sy'n 27 y cant yn llai i'w perchnogion.

Ac ystyried y safonau uchel a bennwyd gan y cynllun, ynghyd â'r ffaith nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau i arolygu llawer o fridwyr yng Nghymru, **credwn y dylai'r trwyddedau ar gyfer aelodau'r Cynllun Bridwyr Gwarantedig gael eu cyhoeddi yn dilyn arolygiad gan asesydd wedi'i hyfforddi gan y Kennel Club er mwyn arbed i'r awdurdodau lleol gynnal yr un arolygiadau ar y bridwyr mwyaf cyfrifol.**

## Rheoliadau sy'n seiliedig ar risg, a sgoriau

**Gallai rhoi sgôr i fridwyr, yn debyg i safonau hylendid bwyd, roi rhagor o gymorth i awdurdodau lleol o ran mesurau gorfodi, drwy ganiatáu iddynt roi sgôr uwch i fridiwr risg isel (cyfrifol), a sgôr isel i fridiwr risg uwch. Yn hytrach nag arolygu pob bridiwr bob blwyddyn, byddai hyn yn galluogi awdurdodau lleol i arolygu bridwyr risg uchel yn amlach na bridwyr risg isel.**



Mae model sy'n seiliedig ar risg yn gwobrwyo'r bridwyr gorau, yn cymell bridwyr i godi eu safonau iechyd a lles ac yn galluogi awdurdodau lleol sydd eisoes dan bwysau i ganolbwyntio mwy ar fridwyr risg uwch. Hefyd, mae'n rhoi tawelwch meddwl ychwanegol i brynwyr cŵn bach os cânt eu prynu gan fridiwr sgôr uwch.

## Cofrestru neu gyflenwad da

Mae cynnal cyflenwad da o gŵn bach hapus ac iach yn hanfodol er mwyn i brynwyr cŵn bach allu dod o hyd i fridwyr da i brynu eu ci bach yn hawdd. O gofio hyn, mae'n hanfodol nad oes unrhyw adolygiad o'r Rheoliadau Bridio Presennol yn atal bridwyr cartref sy'n rhoi pwyslais ar les a niferoedd isel rhag parhau i fridio cŵn. Er bod awgrymiadau y dylai pob bridiwr gael ei gofrestru, ac ystyried adnoddau cyfyngedig yr awdurdodau lleol, rydym yn credu mai bridwyr niferoedd uchel yw'r flaenoriaeth, y mae llawer ohonynt yn torri'r gofynion rheoleiddio presennol ar hyn o bryd. Ar ben hynny, rydym yn credu y bydd llawer o fridwyr yn rhoi'r gorau i fridio yn sgil y baich ychwanegol hwn arnynt i fridio dim ond un neu ddau dorraid y flwyddyn. Mae tystiolaeth o'r effaith hon ar gael ar gais yn dilyn cyflwyno Rheoliadau caeth yn Lloegr sy'n effeithio ar fridwyr sy'n bridio dim ond un neu ddau o gŵn bach y flwyddyn, sydd wedi arwain at fagu dros 50,000 yn llai o gŵn bach bob blwyddyn. Mae'r diffyg yn debygol o gael ei fodloni gan ffermwyr a mewnforwyr cŵn bach, anfoesegol, nad ydynt yn rhoi unrhyw ystyriaeth i les.

**RYDYM YN GALW AR LYWODRAETH NEWYDD CYMRU I SICRHAU'R CANLYNOL:**

- Cynyddu'r pwerau i awdurdodau lleol gael gorfodi troseddau bridio cŵn drwy ganiatáu iddynt roi Hysbysiadau Cosb Benodedig a sicrhau gwell hyfforddiant er mwyn gwella cysondeb o ran camau gorfodi.
- Caniatáu'r Cynllun Bridwyr Gwarantedig wedi'i achredu gan UKAS i hunanreoleiddio ei aelodau, a thrwy hynny osgoi dyblygu arolygiadau awdurdodau lleol.
- Cyflwyno model trwyddedu sy'n seiliedig ar risg er mwyn galluogi awdurdodau lleol i arolygu bridwyr risg uchel/llai cyfrifol yn amlach a rhoi trwyddedau hirach i fridwyr risg isel/cyfrifol.
- Cymell bridwyr domestig niferoedd isel i fridio cŵn bach er mwyn sicrhau cyflenwad da o anifeiliaid anwes hapus ac iach.
- Osgoi gofynion cofrestru cymhleth, nad oes modd eu gorfodi ar gyfer bridwyr sy'n rhoi pwyslais ar les a niferoedd isel.

# MICROSGLODYNNU

## Sicrhau bod pob ci yn cael microsglodyn ac yn cael ei gofrestru mewn cronfa ddata sy'n cydymffurfio

Mae microsglodynnu yn ddull adnabod diogel, rhad a pharhaol sydd, yn ogystal â choler a thag, yn helpu i sicrhau bod y ci sydd ar goll yn cael ei ddychwelyd at ei berchennog. Er bod microsglodynnu yn ofyniad cyfreithiol dan Reoliadau Mircosglodynnu Cŵn (Cymru) 2015, credwn y dylai Llywodraeth Cymru newydd roi blaenoriaeth i adolygu'r Rheoliadau.

Mae'r Kennel Club yn gyfrifol am Petlog, un o gronfeydd data microsglodynnu mwyaf y DU – sy'n golygu ei fod wedi bodloni'r safonau a nodir yn Rheoliadau 2015 ac mae'n cael 60,000 o alwadau bob blwyddyn i helpu i ailuno anifeiliaid anwes â'u perchnogion. Er bod nifer y cŵn crwydr sy'n cael eu hatafaelu gan gynghorau yng Nghymru wedi gostwng bron i 20 y cant ers i'r Rheoliadau presennol ddod i rym, mae cynnydd yng nghanran y cŵn na ellir eu hailuno â'u perchnogion gan nad oes ganddynt ficrosglodyn neu oherwydd bod manylion y microsglodyn yn anghywir.

## Cofrestriadau dyblyg

Ers iddo ddod yn ofyniad cyfreithiol i berchnogion cŵn ficrosglodynnu eu hanifeiliaid anwes, mae llawer mwy o gronfeydd data microsglodynnu wedi cyrraedd y farchnad i fanteisio ar y cyfle busnes. Mae rhai yn gweithredu'n anfoesegol, gan gynnig math o wasanaeth lle byddant yn cofrestru sglodion heb edrych i weld a yw'r sglodyn eisoes wedi'i gofrestru gyda chronfa ddata arall, gan beryglu'r gobaith o ddychwelyd ci at ei berchennog. Yn ogystal â hyn, mae'n creu problem i geidwad newydd h.y. efallai nad yw'n cydymffurfio â'r gyfraith heb yn wybod iddo.

**I helpu gyda'r broses ailuno, credwn y dylai Llywodraeth newydd Cymru wahardd yr arfer o ddyblygu cofrestriadau microsglodion.**

## Safonau cronfeydd data gweithredwyr a mewnblanwyr

Mae cronfeydd data Petlog a microsglodion blaenllaw eraill yn cynnig lefel uchel o wasanaeth i'w cwsmeriaid, gan gynnwys y llinell ffôn 24 awr 7 diwrnod yr wythnos sy'n ofynnol. Fodd bynnag, mae'n anodd i berchnogion cŵn wybod pa gronfeydd data sy'n cydymffurfio â Rheoliadau 2015, gan fod rhai cronfeydd data nad ydynt yn cydymffurfio yn gwneud honiadau camarweiniol, ac mae hyd yn oed cronfeydd data cydymffurfio yn rhedeg eu busnesau heb i Lywodraeth Cymru ddarparu unrhyw wiriadau a phrosesau pwyso a mesur ffurfiol ar lefel y gwasanaeth a ddarperir.

Yn yr un modd, oherwydd yr oed ifanc y mae'n rhaid gosod microsglodyn mewn cŵn bach, amheuir bod nifer yr achosion o symud microsglodion wedi cynyddu. Felly mae'n hanfodol bod y rhai sy'n mewnblannu microsglodion yn cael eu hyfforddi i safon uchel. Serch hynny, gall cwmnïau hyfforddi sy'n cynnig gwasanaethau cyflym a rhad sefydlu eu hunain yn weddol hawdd, ac o ganlyniad, nid ydynt yn darparu gwasanaeth digon da. Dylai Llywodraeth Cymru wirio'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig i fewnblanwyr er mwyn sicrhau ei fod o safon uchel.

**Credwn y dylai Llywodraeth Cymru godi safonau cronfeydd data darparwyr hyfforddiant gweithredwyr a mewnblanwyr er mwyn sicrhau gwell gwasanaeth i berchenogion anifeiliaid anwes.**



**RYDYM YN GALW AR LYWODRAETH NEWYDD CYMRU I SICRHAU'R CANLYNOL:**

- Adolygu Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015.
- Addysgu perchenogion anifeiliaid anwes ar bwysigrwydd cadw manylion microsglodyn eu cŵn yn gyfredol.
- Cael gwared ar yr arfer o ddyblygu cofrestriadau i helpu i ailuno cŵn a'u perchnogion, a chodi safonau gweithredwyr y cronfeydd data a darparwyr hyfforddiant mewnblannu i sicrhau gwell gwasanaeth i berchnogion anifeiliaid anwes.

# PERI GOFID I DDA BYW

## Delio ag achosion o beri gofid i dda byw

Mae peri gofid i dda byw, a'r effaith ganlyniadol ar ffermwyr a rhanddeiliaid eraill sy'n delio â chanlyniad ymosodiad, yn fater y mae'r Kennel Club wedi'i ystyried o ddifrif ers nifer o flynyddoedd. Er mai cŵn a'u perchnogion rydym yn eu cynrychioli'n bennaf, rydym hefyd yn berchen ar fferm gyda thua 1,400 o ddefaid a 43 o fuchesi bridio Galloway, felly mae gennym ddiddordeb yn y mater hwn am ddau reswm.

Mae ymosodiadau ar dda byw yn fater sy'n ennyn teimladau cryf, ac yn aml iawn mae galw mawr am newid y ddeddfwriaeth bresennol pan fyddant yn digwydd. Fodd bynnag, anaml iawn y mae newidiadau byrbwyll i ddeddfwriaeth yn sicrhau canlyniadau gwell. Mae peri gofid i dda byw yn fater difrifol iawn, ac yn haeddu ymateb ystyriol, trylwyr.

## Cŵn ar eu pen eu hunain

Yn nodweddiadol, pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro yng nghefn gwlad yw'r rheswm mwyaf cyffredin am beri gofid i dda byw. O'r herwydd, mae llawer o ymgyrchoedd amlwg wedi'u cynnal i geisio addysgu pobl sy'n mynd â chŵn am dro am eu cyfrifoldeb i atal y digwyddiadau hyn.

Fodd bynnag, er bod pobl sy'n mynd â'u cŵn am dro yn gyfrifol am rai ymosodiadau ar dda byw, mae ffigurau'r heddlu yn dangos dro ar ôl tro mai cŵn ar eu pen eu hunain h.y. cŵn crwydr neu rai sy'n cael crwydro sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o ymosodiadau ar dda byw. Yn ôl ystadegau gan bum heddlu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae tua saith o bob deg ymosodiad ar dda byw yn cael ei achosi gan gŵn ar eu pen eu hunain. Ond, yn hanesyddol, ychydig iawn sydd wedi'i wneud i geisio delio â'r ymosodiadau hyn. Credwn fod angen gwneud mwy, o ran addysg a chanolbwyntio eto ar orfodaeth, i ddelio â chŵn ar eu pen eu hunain sy'n peri gofid i dda byw a byddem yn galw ar Lywodraeth newydd Cymru i gomisiynu arbenigwyr newid ymddygiad i lunio ymgyrch i leihau nifer y cŵn ar eu pen eu hunain sy'n peri gofid i dda byw.



## Mesurau amgen

O ran effaith pobl sy'n mynd â chŵn am dro, rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau partner ers nifer o flynyddoedd i lunio arferion gorau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol i leihau achosion o beri gofid i dda byw. Mae enghreifftiau'n cynnwys sicrhau bod arwyddion sy'n nodi bod da byw yn bresennol yn gywir ac yn gyfoes. Mae hyn yn galluogi perchnogion cŵn i wybod lle mae angen iddynt gadw eu cŵn ar dennyn a lle gallant adael eu cŵn yn rhydd. Er ei fod yn gam cymharol syml, mae wedi arwain at ostyngiadau sylweddol yn yr ymosodiadau ar dda byw yn yr ardaloedd mae wedi cael ei dreialu.

Yn yr un modd, mae rhai tirfeddianwyr wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, grwpiau defnyddwyr mynediad a'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gynnig llwybrau amgen dros dro i berchenogion cŵn, gan roi dewis ar sail gwybodaeth iddynt i osgoi da byw ar eu teithiau cerdded. Bydd y mwyafrif llethol o bobl sy'n mynd â chŵn am dro yn osgoi da byw os rhoddir dewis iddynt, yn enwedig oherwydd y marwolaethau a'r anafiadau newid bywyd a achosir i gerddwyr, a chanddynt gŵn gan amlaf, gan wartheg bob blwyddyn.

**Byddem felly yn galw ar Lywodraeth newydd Cymru i asesu a hyrwyddo arferion gorau, mesurau anneddfwriaethol a fydd yn grymuso pobl sy'n mynd â chŵn am dro i osgoi da byw a gwrthdaro ar eu teithiau.**

**RYDYM YN GALW AR LYWODRAETH NEWYDD CYMRU I SICRHAU'R CANLYNOL:**

- Comisiynu arbenigwyr newid ymddygiad i lunio ymgyrch i leihau nifer yr achosion o beri gofid i dda byw gan gŵn ar eu pen eu hunain.
- Asesu a hyrwyddo arfer gorau a mesurau anneddfwriaethol a fydd yn grymuso cerddwyr sy'n mynd â chŵn am dro i osgoi da byw a gwrthdaro wrth fynd am dro.

# YMATEB COVID-19

Yn ystod y cyfnod presennol, mae'r Kennel Club a Kennel Club Cymru yn gweithio i sicrhau lles cŵn a rhoi'r cyngor diweddaraf i'r rheini sy'n bridio cŵn, yn trosglwyddo cŵn rhwng bridwyr a pherchnogion newydd, yn achub cŵn ac yn hyfforddi cŵn.

Yn ystod y sefyllfa unigryw a digynsail hon, rydym wedi bod yn cynghori bridwyr cyfrifol i beidio â bridio nes bod y cyfnod clo ar ben, er mwyn i gŵn bach gael cymdeithasu'n briodol ac fel bod modd cael gafael ar filfeddygon yn haws. Lle cafodd cŵn eu paru cyn y cyfyngiadau symud, rydym wedi bod yn rhoi cyngor ac yn cysylltu ag awdurdodau'r Llywodraeth, i sicrhau bod cŵn bach yn cael eu trosglwyddo'n ddiogel. Er ein bod fel arfer yn argymell bod cŵn bach yn cael eu gweld gyda'u mam a dim ond yn cael eu codi o safle'r bridwyr, ni fu'n bosibl gwneud hynny ar adegau. Er ein bod fel arfer yn dadlau dros fanteision eang bod yn berchen ar gi, rydym wedi bod yn cynghori pobl i beidio â phrynu ci bach neu gi ar hyn o bryd ac yn hytrach i ddefnyddio'r amser hwn i wneud ymchwil ar y math o gi fyddai'n gweddu orau iddynt a'u ffordd o fyw.

Er gwaethaf hyn, mae'r galw am gŵn bach yn ystod y cyfnod cyfyngiadau symud wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chynnydd o 168 y cant yn nifer y bobl sydd wedi defnyddio adnodd 'Find a Puppy' y Kennel Club mewn peiriant chwilio o 23 Mawrth tan ddiwedd Mai o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. O'r herwydd, rydym yn poeni o ble daw'r cyflenwad o gŵn bach os bydd y galw'n parhau'n uchel a phan nad yw bridwyr cyfrifol yn bridio.

Yn ogystal â rhoi cyngor a chymorth i berchnogion, bridwyr, hyfforddwyr a busnesau cŵn eraill, mae'r Kennel Club wedi sefydlu cronfa cymorth brys Covid-19 i helpu i gefnogi'r amrywiaeth o sefydliadau lleol sy'n gweithio yn y gymuned, gan gynnwys sefydliadau achub a hyfforddi, y mae angen arian arnynt ar hyn o bryd er mwyn atal cŵn rhag dioddef yn ddiangen.

Ar ôl y cyfyngiadau symud, rydym hefyd yn gobeithio annog mwy o berchnogion i ddefnyddio ein hadnoddau hyfforddi, gan gynnwys y Cynllun Hyfforddi Cŵn i Ddinasyddion Da a Hyfforddwyr Achredig Kennel Club, er mwyn ceisio datrys unrhyw broblemau sy'n ymwneud ag ymddygiad neu gymdeithasu a allai fod wedi'u hachosi gan gyfyngiadau'r pandemig, a gallai olygu bod llawer mwy o gŵn nag arfer yn cael eu hildio.

**Drwy gydol y cyfnod hwn rydym wedi gweithio fel rhan o Grŵp Lles Anifeiliaid Anwes Cymru, gan gynnig cyngor fel bod lles cŵn bach yn cael ei ystyried ochr yn ochr â diogelu iechyd pobl yn ystod y pandemig.**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
**press.office@thekennelclub.org.uk**

